Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Parotidectomi Arwynebol

## Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o'r Ysbyty

**Parotidectomi arwynebol:**
Gwneir llawdriniaeth i gael gwared ar ran o'r chwarren barotid sy'n un o'r prif chwarennau poer sydd ar ochr yr wyneb. Gwneir y llawdriniaeth fel arfer er mwyn tynnu tiwmor/annormaledd o fewn y chwarren. Mae'r rhan fwyaf o diwmorau yn anfalaen, sy'n golygu nad ydynt yn ganseraidd (malaen) ac nad ydynt yn lledaenu i rannau eraill o'r corff. Er bod 80% o'r lympiau yma'n anfalaen yn y rhan fwyaf o achosion rydym yn argymell eu bod yn cael eu tynnu gan fod siawns fach y gallant fynd yn falaen yn y dyfodol. Gallant hefyd dyfu, edrych yn annymunol a mynd yn anoddach i'w tynnu.
Bydd y toriad yn rhedeg o flaen y glust i lawr i'r gwddf. Mae'r toriad yn tueddu i wella'n dda iawn ac yn gadael craith fach iawn yn y rhan fwyaf o achosion.

**Beth i'w ddisgwyl ar ôl y lawdriniaeth:**
Mae'n debygol y bydd draen yn dod o'r clwyf ar ôl y lawdriniaeth ac fel arfer gellir ei dynnu o fewn 24 i 48 awr. Mae'n debygol y byddwch yn aros yn yr ysbyty am 24-48 awr ar ôl y llawdriniaeth tra bydd y draen i mewn.
Os defnyddir pwythau/clipiau na ellir eu hydoddi yna efallai y bydd angen eu tynnu ar ôl wythnos fel arfer yn eich practis meddyg teulu. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi ar ôl y lawdriniaeth ac yn cael ei nodi ar eich llythyr rhyddhau.
Mae teimlo'n fwy blinedig nag arfer yn normal am hyd at wythnos ar ôl eich llawdriniaeth, os ydych yn rhiant neu'n ofalwr bydd angen rhywfaint o gymorth arnoch yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig eich bod yn bwyta ac yn yfed fel arfer.
Sicrhewch fod eich clwyf yn cael ei gadw'n lân ac yn sych. Dylid osgoi defnyddio colur a hufenau persawrus. Ar ôl 10 diwrnod, tylinwch eich craith yn ysgafn gyda hufen lleithio heb bersawr ynddo ddwy neu dair gwaith y dydd.

**Cymhlethdodau posibl:**
**Gwendid nerf yr wyneb:**
mae nerf yr wyneb yn mynd trwy'r chwarren barotid ac yn rheoli'r symudiad i'r ochr honno o'ch wyneb, os caiff ei ddifrodi yn ystod y llawdriniaeth gall hyn achosi gwendid yn y wyneb. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r nerf yn gweithio fel arfer ar ôl y llawdriniaeth ond mewn 15-20% o achosion mae gwendid yn y wyneb dros dro. Gall hyn bara sawl wythnos cyn mynd yn ôl i normal. Mae gwendid parhaol yn nerf y wyneb yn brin yn dilyn y llawdriniaeth hon ar gyfer tiwmorau anfalaen.

**Diffrwythder croen a chlust:**
Bydd y croen ar ochr eich wyneb yn ddiffrwyth am rai wythnosau ar ôl y llawdriniaeth, gallwch ddisgwyl i labest y glust fod yn ddideimlad yn barhaol.

**Clot gwaed (hematoma):**
Mewn tua 5% o achosion gall gwaed gasglu o dan y croen yn dilyn llawdriniaeth ac weithiau bydd angen dychwelyd i'r theatr i dynnu'r clot.

**Casgliad poer (seroma):**
Mewn 2-5% o gleifion mae'r toriad ar wyneb y chwarren parotid yn gollwng ychydig o boer, ac os bydd hyn yn digwydd, gall hefyd gasglu o dan y croen. Weithiau caiff hyn ei drin drwy roi pwysau ar yr wyneb neu drwy ddraenio gyda nodwydd. Yn achos rhai cleifion gall ffistwla poer ffurfio. Mae hyn yn golygu bod rhywfaint o boer yn gollwng o'r clwyf, mae hyn fel arfer yn datrys ohono'i hun ond weithiau mae angen iddo gael ei reoli.

**Syndrom Freys:**
Mae rhai cleifion yn teimlo fod eu boch yn mynd yn goch, yn gwrido ac yn mynd yn chwyslyd wrth fwyta ar ôl y lawdriniaeth hon. Mae hyn yn digwydd gan fod cyflenwad y chwarren o nerfau yn gallu aildyfu a chyflenwi chwarennau chwys y croen sydd dros y chwarren, yn hytrach na'r parotid ei hun. Fel arfer, gellir trin hyn yn hawdd drwy roi gwrth-berspirant y gellir ei rolio ymlaen. Fel arfer bydd yn gwella heb ymyrraeth bellach.

**Cyngor yn dilyn llawdriniaeth:**
Efallai y byddwch yn cael rhywfaint o boen wrth lyncu oherwydd y llawdriniaeth a'r tiwb anesthetig. Mae hyn yn normal a dylai ddiflannu ar ôl 72 awr.

Dylech gymryd 2 wythnos i ffwrdd o'r gwaith er mwyn gwella ar ôl y lawdriniaeth. Gellir rhoi nodyn salwch cyn i chi gael eich rhyddhau o'r ysbyty os oes angen.

Bydd gennych graith. Bydd y graith yn edrych yn goch ond bydd yn colli lliw yn araf. Gall hyn ddigwydd dros gyfnod o ychydig fisoedd neu ychydig flynyddoedd. Mae rhai pobl yn cynhyrchu craith Keloid (craith godi/lliw dwfn). Mae hyn oherwydd y math o groen sydd ganddynt; nid oes modd rhagweld y bydd hyn yn digwydd cyn y lawdriniaeth ac mae'n bosib y bydd modd trin y graith yn ddiweddarach. Bydd angen i chi amddiffyn eich craith rhag golau haul uniongyrchol am 18 mis; fe'ch cynghorir i ddefnyddio bloc haul llwyr. Efallai y bydd bwlch amlwg ar y wyneb ar ôl tynnu'r tiwmor.

**Camau Dilynol:**
Dylech gael eich gweld yn y clinig cleifion allanol tua 2 i 4 wythnos ar ôl y lawdriniaeth. Ar y pwynt hwn fe ddylai'r profion o'r labordy fod ar gael. Bydd eich llawfeddyg hefyd yn gallu edrych yn fanwl ar eich gwddf ac ateb unrhyw gwestiynau. Os na fyddwch yn derbyn gohebiaeth ynglŷn â'r apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa trefnu apwyntiadau cleifion allanol ar 01495765055.

**GWYBODAETH AR BETH I'W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI'U RHYDDHAU O'R YSBYTY**

**09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):**
Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633234018

**Wedi 17:00/yn ystod y nos (oedolion)**: Ward C0 01633 493926

**Os bydd argyfwng anadlu, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Gall hyn ddigwydd os oes gwaedu neu chwyddo yn eich gwddf, yn enwedig yn ystod y 48 awr gyntaf ar ôl llawdriniaeth.**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English"**